# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**CYDBWYLLGOR YMGYNGHOROL A.H.N.E LLŶN**

Dyddiad ac Amser

**4.30 y.h., DYDD MERCHER, 24AIN MEHEFIN, 2015**

***Nodwch amser cychwyn y cyfarfod os gwelwch yn dda***

Lleoliad

**Ystafell Gyfarfod, Frondeg, Pwllheli, LL53 5RE.**

Pwynt Cyswllt

**Bethan Adams**

**01286 679020**

**BethanAdams@gwynedd.gov.uk**

(DOSBARTHWYD 16/6/15)

**AELODAETH:**

**Cynghorwyr Gwynedd:**

**Angela Ann Russell**
**W. Gareth Roberts**
**Gruffydd Williams**
**Owain Williams**
**R.H. Wyn Williams**

**Eraill:**

**Enwebeion Cynghorau Cymuned Aberdaron, Buan, Botwnnog, Clynnog, Llanbedrog, Llanaelhaearn, Llanengan, Nefyn, Pistyll a Thudweiliog.**

**Enwebeion yr asiantaethau/sefydliadau canlynol:**

**Ymddiriedolaeth Genedlaethol**
**Cyfoeth Naturiol Cymru,**
**Fforwm Mynediad Arfon a Dwyfor,**
**Cyfeillion Llŷn,**
**Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr,**
**Undeb Amaethwyr Cymru,**
**Partneriaeth Dwristiaeth Abersoch a Llŷn,**
**Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig/CPRW,**
**Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd.**

***Noder bod y cyfarfod yn cychwyn am 4.30pm***

# RHAGLEN

**1. CADEIRYDD**

I ethol cadeirydd am y flwyddyn 2015/16.

**2. IS-GADEIRYDD**

I ethol is-gadeirydd am y flwyddyn 2015/16.

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**5. MATERION BRYS**

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw brys ym marn y Cadeirydd.

**6. COFNODION** 1 - 5

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 25 Mawrth, 2015, fel rhai cywir.

**7. ADOLYGIAD O DIRWEDDAU GWARCHODEDIG CYMRU – CAM 2** 6 - 11

Cyflwyno adroddiad Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn.

**8. DIWEDDARIAD AR BROSIECTAU** 12 - 23

Cyflwyno adroddiad Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn.

**9. SEFYDLU IS-GRŴP CYNLLUNIO** 24 - 25

Cyflwyno adroddiad Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn.

**10. APÊL CYNLLUNIO – TYRBIN GWYNT, CRUGERAN, SARN** 26 - 29

Cyflwyno adroddiad Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn.

**11. AELODAU LLEOL AR Y CYDBWYLLGOR YMGYNGHOROL** 30

Cyflwyno adroddiad Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn.

# CYDBWYLLGOR YMGYNGHOROL ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL LLŶN 25/3/15

**Yn bresennol**:

Y Cynghorydd Gruffydd Williams (Cadeirydd)

**Aelodau'r Pwyllgor:** Y Cynghorwyr Angela Russell a R. H. Wyn Williams (Cyngor Gwynedd), Emily Bateman (Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd), Noel Davey (Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig), John Gosling (Partneriaeth Dwristiaeth Abersoch a Llŷn), William I. Hughes (Undeb Amaethwyr Cymru), T. Victor Jones (Cyngor Cymuned Llanbedrog), Sian Parri (Cyngor Cymuned Tudweiliog), Morgan Jones-Parry (Fforwm Mynediad Arfon a Dwyfor), John Eric Williams (Cyfeillion Llŷn) a Wenda Williams (Cyngor Cymuned Aberdaron).

**Swyddogion:** Bleddyn P. Jones (Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn), Catrin Glyn (Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn), Nia Haf Davies (Rheolwr Cynllunio (Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd - Gwynedd a Môn) ar gyfer eitem 9 ar y rhaglen) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**1. CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD**

Nodwyd yn unol â chylch gorchwyl presennol y Cydbwyllgor, mai o blith yr aelodau etholedig o Gyngor Gwynedd a ellir penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cydbwyllgor.

Eglurwyd bod y Cydbwyllgor wedi penderfynu yn ei gyfarfod ar 22 Hydref 2014:

"*Gofyn i'r Swyddog Monitro gyflwyno argymhelliad y Cydbwyllgor a wnaed yn y cyfarfod a gynhaliwyd 21 Tachwedd 2013 i'r Cyngor Llawn.*"

Adroddwyd y derbyniwyd arweiniad cyfreithiol pellach yn ddiweddar yn nodi mai mater i'r Aelod Cabinet – Cynllunio a Rheoleiddio yw diwygio cyfansoddiad y Cydbwyllgor yn hytrach na'r Cyngor Llawn. Nodwyd bod Taflen Benderfyniad Aelod Cabinet wedi ei baratoi yng nghyswllt diwygio cyfansoddiad y Cydbwyllgor i nodi bod modd ethol Cadeirydd yn flynyddol o blith holl aelodau'r Cydbwyllgor.

Rhoddwyd arweiniad y gellir ethol Aelod o Gyngor Gwynedd yn Gadeirydd am y cyfarfod yma neu ethol Aelod o Gyngor Gwynedd yn unol â'r drefn bresennol. Hyderir y byddai'r penderfyniad yn weithredol er galluogi penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd yng nghyfarfod nesaf y Cydbwyllgor o dan y drefn newydd.

**PENDERFYNWYD:**
**(i) Nodi'r wybodaeth;**
**(ii) Penodi'r Cynghorydd Gruffydd Williams yn Gadeirydd am y cyfarfod yma.**

**2. CROESO**

Croesawodd y Cadeirydd Emily Bateman (Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd) i'w cyfarfod cyntaf ynghyd â Nia Haf Davies, Rheolwr Cynllunio (Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd - Gwynedd a Môn).

**3. YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd W. Gareth Roberts, Laura Hughes (Ymddiriedolaeth Genedlaethol), Arfon Jones (Cyngor Tref Nefyn), Alun Price (Cyfoeth Naturiol Cymru), Gillian Walker (Cyngor Cymuned Botwnnog) a Dylan Williams (NFU Cymru).

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**5. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Cydbwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 22 Hydref 2014.

**6. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Nododd Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn y cyflwynir adroddiad yng nghyswllt sefydlu Is-Bwyllgor Materion Cynllunio i gyfarfod nesaf y Cydbwyllgor.

**7. ADOLYGIAD O DIRWEDDAU GWARCHODEDIG CYMRU**

Cyflwynwyd adroddiad Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn a oedd yn nodi'r sefyllfa ddiweddaraf o ran adolygiad Llywodraeth Cymru i Dirweddau Dynodedig.

Tynnwyd sylw i ddatganiad gan Carl Sargeant, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, a oedd yn cynnwys gwybodaeth am gasgliadau Rhan 1 o'r adolygiad.

Adroddwyd y derbyniwyd llythyr heddiw a oedd nodi y rhoddir ystyriaeth i'r trefniadau rheoli yn Rhan 2 o'r adolygiad ac fe roddir cyfle i gyfrannu i'r broses.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y prif bwyntiau canlynol:

- Pryder o ran y gôst o ail-frandio;
- Bod brand AHNE yn gydnabyddedig yn genedlaethol felly byddai trefn wahanol yng Nghymru;
- Y dylid cadw cyfeiriad at 'harddwch' yn enw'r dynodiad;
- Bod yr enw a argymhellir ar gyfer y dynodiad 'Tirweddau Cenedlaethol Cymru' yn rhoi statws cenedlaethol i'r dynodiad;
- Y dylid rhoi blaenoriaeth i'r diben cadwraeth allan o'r tri diben statudol pan font yn gwrthdaro;
- Bod angen gwybod pam argymhellir newid enw'r dynodiad;
- Ei fod o fantais i'r AHNE dderbyn statws yr un fath a'r Parciau Cenedlaethol a byddai enw o dan ymbarél cenedlaethol Cymraeg yn uchafu'r ardal;
- Bod angen diffinio ardal yn yr enw os newidir enw'r dynodiad.

**PENDERFYNWYD:**
**(i) derbyn yr adroddiad;**
**(ii) bod Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn yn crynhoi'r drafodaeth a'i anfon at y Panel.**

**8. DIWEDDARIAD AR BROSIECTAU**

Derbyniwyd diweddariad gan Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn ar waith yr Uned AHNE.

Nodwyd fel cywiriad i'r rhestr o Ardaloedd Cadwraeth yn yr adroddiad bod Aberdaron a Porthdinllaen yn Ardaloedd Cadwraeth yn ogystal.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed ffynonellau ariannu ar gyfer gwelliannau i'r Ardaloedd Cadwraeth, nodwyd y bwriedir cynnal trafodaethau efo'r Cynghorau Cymuned a rhanddeiliaid perthnasol. Ychwanegwyd y byddai posib cyflwyno ceisiadau am grant o wahanol ffynonellau, er enghraifft, y Gronfa Datblygu Cynaliadwy a CADW.

Nododd aelod y byddai'n fuddiol derbyn gwybodaeth o ran y prosiectau Ardaloedd Cadwraeth a'r Rhyfeloedd Byd.

**PENDERFYNWYD:**
**(i) derbyn yr adroddiad;**
**(ii) y dylid cyflwyno crynodeb o brosiect Ardaloedd Cadwraeth Llŷn a phrosiect y Rhyfeloedd Byd i'r Cydbwyllgor.**

## 9. CYNLLUN DATBLYGU LLEOL GWYNEDD A MÔN 2011-26

Cyflwynwyd adroddiad Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn a oedd yn amlygu polisïau perthnasol i'r Ardal o Harddwch o Gynllun Adnau Drafft Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn 2011-26. Nodwyd y rhoddir cyfle i'r aelodau gytuno ar gynnwys ymateb y Cydbwyllgor i'r ymgynghoriad ar y Cynllun Adnau Drafft a oedd yn dod i ben ar 31 Mawrth 2015.

Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r broses gan Reolwr Cynllunio (Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd - Gwynedd a Môn). Tynnwyd sylw, yn unol ag arweiniad Llywodraeth Cymru, os oedd polisi cenedlaethol mewn lle yn barod nad oedd angen polisïau ar y materion penodol yn y Cynllun. Nodwyd bod yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn annog unigolion/grwpiau i ddefnyddio'r porth rhyngweithiol neu'r ffurflen ymateb berthnasol i roi sylwadau ar y Cynllun.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed derbyn sylwadau mewn ffurf wahanol i'r hyn a anogir, nododd Rheolwr Cynllunio (Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd - Gwynedd a Môn) yr ystyrir bob sylw ac os nad oedd crynodeb wedi ei gynnwys byddai'r uned yn cysylltu efo'r unigolyn/grŵp i gytuno ar grynodeb a fyddai'n ymddangos ar y porth rhyngweithiol.

Mewn ymateb i gwestiwn, nodwyd y byddai copi caled o'r holl sylwadau yn gyflawn ar gael gyda'r manylion personol wedi eu tynnu allan.

Tywysodd y Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn yr aelodau trwy'r adroddiad gan dynnu sylw penodol at yr isod:

- Nid oedd polisi penodol o ran cynnal a gwarchod yr AHNE, teimlir bod angen polisi penodol;
- Bod polisi penodol ar gyfer Ardaloedd o Dirwedd Arbennig (AMG1) yn gwarchod gosodiad yr AHNE lle mae'n ffinio efo Ardal Tirwedd Arbennig (ATA) Gorllewin Llŷn ond bod angen y gwarchodiad ar gyfer rhannau o'r AHNE nad oedd yn ffinio;
- Bod Polisi AMG 3 yn cyfeirio at Warchod yr Arfordir gan gynnwys yr Arfordir Treftadaeth. Dynodiad lleol yw'r Arfordir Treftadaeth sydd yn dilyn ffin arfordirol yr AHNE i raddau helaeth yn Llŷn a chredir y dylai'r polisi adlewyrchu'r dynodiad yn fwy cadarnhaol.
- Cefnogir Polisi TWR 3 'Carafanau Sefydlog a Siale a Llety Gwersylla Amgen Parhaol' gan y bwriedir gwrthod safleoedd newydd ac estyniadau o fewn yr AHNE a'r ATA sydd yn gryfach na'r ddarpariaeth bresennol;
- Polisi TWR 5 'Safleoedd Carafanau Teithiol, Gwersylla a Llety Gwersylla Amgen dros dro' - Bod cryn bwysau gan y math yma o ddatblygiad yn ardal Llŷn a chredir y dylid fod mwy caeth oddi mewn, a gerllaw, yr ardal ddynodedig a dylid ystyried cyfyngu ar y nifer a rhoi sylw mwy penodol i'r AHNE;
- Polisi PCYFF 2 'Dylunio a Siapio' – dylid cyfeirio'n benodol at yr AHNE;
- Polisi ADN 1 'Ynni Gwynt ar y Tir' - Pryder am faen prawf 2 yn benodol oherwydd nad yw'n cyfeirio at warchod gosodiad yr AHNE. Hefyd pryder am y categorïau a dynodi datblygiadau dan 5MW fel rhai "Bach" gan all y tyrbinau fod o faint sylweddol;

- Polisi ADN 2 'Technoleg Ynni Adnewyddadwy Arall' - Credir fod y polisi hwn yn rhy benagored o ran cynigion tu allan i ffiniau datblygu a dylid nodi cyfeiriad at ffermydd solar.

Cafwyd trafodaeth ar gynnwys ymateb y Cydbwyllgor, yn ystod y drafodaeth amlygwyd y pwyntiau canlynol:

- Pryder yng nghyswllt caniatáu safleoedd carafanau i fod ar agor 12 mis a threfniadau monitro yn yr hinsawdd ariannol bresennol;
- Bod angen gwaith dilynol ar ôl caniatáu datblygiadau carafanau i sicrhau bod y datblygiad wedi ei sgrinio yn ddigonol;
- Bod ffermydd wedi gorfod arall gyfeirio er mwyn sicrhau eu dyfodol;
- Bod angen cyfyngu ar y nifer o estyniadau i safleoedd carafanau;
- Bod angen gwell rheolaeth o ran caniatáu datblygiadau carafanau ar dir ymylol i'r AHNE gan eu bod yn cael effaith ar yr AHNE;
- Bod polisi ADN1 'Ynni Gwynt ar y Tir' yn newid y sefyllfa bresennol o beidio caniatáu tyrbinau gwynt yn yr AHNE wrth nodi y gellir caniatáu ceisiadau am dyrbinau hyd at 15 medr o uchder. Roedd yn holl bwysig i warchod yr AHNE. Mewn ymateb, nododd Rheolwr Cynllunio (Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd - Gwynedd a Môn) bod adolygiad gan gwmni allanol wedi dod i'r casgliad bod capasiti oddi mewn i'r AHNE i ymdopi a datblygiadau tyrbinau gwynt micro/bach. Ychwanegodd bod polisi ADN1 ddim yn rhoi hawl awtomatig i ddatblygiadau o'r fath;
- Y dylid glynu at ddatganiad y Cydbwyllgor o ran datblygiadau tyrbinau gwynt;
- Ni chaniateir datblygiadau carafanau oddi mewn i'r AHNE ond o dan y polisi caniateir datblygiadau tyrbinau gwynt yn yr AHNE sydd yn cael effaith andwyol;
- Bod angen tynhau polisïau o ran datblygiadau tyrbinau gwynt o ystyried yr apeliadau a ganiatawyd oherwydd gwendid yn y polisïau lleol;
- Dylai'r Cynllun Adnau roi fwy o sylw i ffermydd solar;
- Yn croesawu peidio caniatáu tyrbinau gwynt uwch na 15 medr o uchder ym Mhen Llŷn;
- Y dylid gwrthod unrhyw gais am dyrbin gwynt oddi mewn i'r AHNE a chaniatáu tyrbinau gwynt hyd at 11 medr o uchder yng ngweddill Mhen Llŷn;
- Bod nodi cyfyngiadau maint penodol ar dyrbinau gwynt mewn gwahanol leoliadau yn gam da ymlaen yn hytrach na phenderfynu ar gapasiti yn unig;
- Y dylai'r cynllun ei wneud yn eglur bod ymrwymiad lleol i warchod yr AHNE;
- Yng nghyswllt TAI5 'Tai Marchnad Lleol', y dylid bod cyswllt efo'r iaith;
- O ran nifer tai, nododd Rheolwr Cynllunio (Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd - Gwynedd a Môn) bod y dosbarthiad tai yn adlewyrchu rôl aneddleoedd;
- Mewn ymateb i sylwadau yng nghyswllt nifer tai, eglurodd Rheolwr Cynllunio (Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd - Gwynedd a Môn) bod polisi PS13 yn nodi y rhagwelir yr adeiladir 2,604 o dai hyd at 2018 oherwydd sefyllfa'r economi. Nododd bod gofyniad statudol i gynnal gwaith monitro ar y cynllun yn flynyddol a'i adolygu bob pedair blynedd ac os yw sefyllfa'r economi yr un fath a rhagwelir yna bydd rhaid ail-ymweld â'r Cynllun a rhoi ystyriaeth i lefel twf tai a gosodiad o bosib;
- Y dylai'r Cynllun Datblygu gyfeirio at Gynllun Rheoli'r AHNE;
- Gofynnwyd i'r aelodau dderbyn copi o'r sylwadau a gyflwynir ar ran y Cydbwyllgor i'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd.

**PENDERFYNWYD:**

**(i) Y dylai ymateb y Cydbwyllgor i'r Ymgynghoriad ar y Cynllun Adnau Drafft gynnwys cyfeiriad at y canlynol:**

- Nid oedd polisi penodol o ran cynnal a gwarchod yr AHNE, teimlir bod angen polisi penodol;

- Bod polisi penodol ar gyfer Ardaloedd o Dirwedd Arbennig (AMG1) yn gwarchod gosodiad yr AHNE lle mae'n ffinio efo Ardal Tirwedd Arbennig (ATA) Gorllewin Llŷn ond bod angen y gwarchodiad ar gyfer rhannau o'r AHNE nad oedd yn ffinio;
- Bod Polisi AMG 3 yn cyfeirio at Warchod yr Arfordir gan gynnwys yr Arfordir Treftadaeth. Dynodiad lleol yw'r Arfordir Treftadaeth sydd yn dilyn ffin arfordirol yr AHNE i raddau helaeth yn Llŷn a chredir y dylai'r polisi adlewyrchu'r dynodiad yn fwy cadarnhaol.
- Cefnogir Polisi TWR 3 'Carafanau Sefydlog a Siale a Llety Gwersylla Amgen Parhaol' gan y bwriedir gwrthod safleoedd newydd ac estyniadau o fewn yr AHNE a'r ATA sydd yn gryfach na'r ddarpariaeth bresennol;
- Polisi TWR 5 'Safleoedd Carafanau Teithiol, Gwersylla a Llety Gwersylla Amgen dros dro' - Bod cryn bwysau gan y math yma o ddatblygiad yn ardal Llŷn a chredir y dylid fod mwy caeth oddi mewn, a gerllaw, yr ardal ddynodedig a dylid ystyried cyfyngu ar y nifer a rhoi sylw mwy penodol i'r AHNE;
- Polisi PCYFF 2 'Dylunio a Siapio' – dylid cyfeirio'n benodol at yr AHNE;
- Polisi ADN 1 'Ynni Gwynt ar y Tir' - Pryder am faen prawf 2 yn benodol oherwydd nad yw'n cyfeirio at warchod gosodiad yr AHNE. Hefyd pryder am y categorïau a dynodi datblygiadau dan 5MW fel rhai "Bach" gan all y tyrbinau fod o faint sylweddol;
- Polisi ADN 2 'Technoleg Ynni Adnewyddadwy Arall' - Credir fod y polisi hwn yn rhy benagored o ran cynigion tu allan i ffiniau datblygu a dylid nodi cyfeiriad at ffermydd solar;
- Y dylid gwrthod unrhyw gais am dyrbin gwynt oddi mewn i'r AHNE a chaniatáu tyrbinau gwynt hyd at 11 medr o uchder yng ngweddill Mhen Llŷn yn unol â datganiad y Cydbwyllgor yng nghyswllt tyrbinau gwynt;
- Pryder yng nghyswllt caniatáu safleoedd carafanau i fod ar agor 12 mis a threfniadau monitro yn yr hinsawdd ariannol bresennol.

**(ii) bod Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn yn anfon copi o'r ymateb a gyflwynir i'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd i'r aelodau.**

Dechreuodd y cyfarfod am 4.30pm a daeth i ben am 7.00pm

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | 24 Mehefin 2015 |
| **TEITL** | Adolygiad o Dirweddau Gwarchodedig Cymru – Cam 2 |
| **PWRPAS** | Gwybyddu Aelodau |
| **AWDUR** | Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr Wybodaeth |

**1.0 CYFLWYNIAD**

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am y sefyllfa ddiweddaraf o ran yr Adolygiad o Dirweddau Dynodedig a wneir gan Lywodraeth Cymru.

**2.0 YR ADOLYGIAD O DIRWEDDAU DYNODEDIG**

2.1 Adroddwyd yn wreiddiol ar y mater yn mis Hydref 2014 pan eglurwyd fod adolygiad annibynnol o Dirweddau Dynodedig yn cael ei gynnal yn 2014/15. Roedd Cam 1 o'r gwaith yn edrych ar bwrpas y tirluniau dynodedig a manteision/ anfanteision categoreiddio tirluniau dynodedig Cymru o dan un math o ddynodiad.

2.2 Yn y cyfarfod diwethaf o'r Cydbwyllgor, a gynhaliwyd yn Mawrth 2015, adroddwyd fod casgliadau Cam 1 y gwaith wedi eu derbyn (gellir gweld copi o Adroddiad y Panel ar safle we Llywodraeth Cymru). Bu trafodaeth ar y casgliadau hynny ac fe benderfynwyd anfon sylwadau pellach ar y mater i sylw'r Panel Adolygu.

**3.0 CAM 2 YR ADOLYGIAD**

3.1 Erbyn hyn mae'r Panel Adolygu wedi symud ymlaen i ystyried Cam 2 o'r Adolygiad - sy'n ystyried y modd mae'r Parciau Cenedlaethol a'r AHNE yn cael eu rheoli a'u llywodraethu. Derbyniwyd papurau cefndirol sydd yn rhoi gwybodaeth am Gam 2 ac mae nifer o gwestiynau y gofynnir am sylwadau arnynt (gweler atodiad).

3.2 Mae Cyngor Gwynedd fel sefydliad wedi ymateb yn annibynnol i'r ymgynghoriad hwn. Mae cyfle rŵan fodd bynnag i'r Cydbwyllgor ystyried y mater, cyfleu safbwynt ac ymateb i'r cwestiynau sydd wedi ei gosod gan y Panel Adolygu.

3.3 Er gwybodaeth, mae'r Uned AHNE hefyd wedi derbyn copi o ymateb nifer o fudiadau eraill ar yr ymgynghoriad, yn cynnwys

- Parciau Cenedlaethol Cymru (ymateb ar y cyd)
- Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig

- Y Gymdeithas dros AHNE
- Rhai o AHNE eraill Cymru

3.4 Mae’r copïau o’r ymatebion yma ar gael gan yr Uned AHNE os oes unrhyw aelod awydd eu gweld.

## 4.0 ARGYMHELLIAD

4.1 I ystyried y materion a godir yn Cam 2 yr Adolygiad o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru, yn cynnwys y cwestiynau a osodwyd gan y Panel Adolygu.

4.2 Cytuno ar ymateb i Cam 2 yr Adolygiad i’w anfon ymlaen i sylw’r Panel Adolygu.

## ATODIADAU

**Copi o lythyr gan Yr Athro Terry Marsden, Cadeirydd, Yr Adolygiad o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru**

**Yr Adolygiad o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru, Cam Dau, Cefndir**

Adolygiad o’r Tirweddau Dynodedig yng Nghymru
Trydydd Llawr, Craidd y De, CO4
Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays
Caerdydd,
CF10 3NQ

Rwy’n ysgrifennu atoch ar ran Panel yr Adolygiad o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru – sy’n cynnal adolygiad annibynnol o Barciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol Cymru i’r Gweinidog Cyfoeth Naturiol.

Fel y gwyddoch, mae’r Gweinidog a gweddill Cabinet Llywodraeth Cymru, wedi ystyried ein hadroddiad Cam Un ynghylch pwrpas a dyletswyddau’r tirweddau dynodedig, ac ai yr un dynodiad ddylai fod ar gyfer y Parciau Cenedlaethol a’r AHNEoedd. Cafwyd ymateb positif i’r adroddiad ac mae’r Gweinidog wedi gofyn i’r Adolygiad fynd yn ei flaen i gynnal Cam Dau ein gwaith, sef edrych ar drefniadau llywodraethu’r ddau ddynodiad.

Rydym wedi penderfynu, fel ag o’r blaen, wrth gasglu tystiolaeth dros y misoedd nesaf, i ofyn i’r rhanddeiliaid am eu cyfraniad; ac rwy’n disgwyl ymlaen at drafodaeth lawn a didwyll am drefniadau llywodraethu’r tirweddau dynodedig. Mae angen tystiolaeth arnom inni fedru deall yn well beth sy’n gweithio, beth sydd angen ei newid a pha drefn lywodraethu fyddai fwyaf atebol i wireddu her y Gweinidog:

> *“Rwyf am i’n tirweddau dynodedig ddod yn esiamplau i’r byd ar sut i fod yn gynaliadwy ... yn gymunedau byrlymus a chadarn sy’n cynnig cyfleoedd mawr i hamddena yn yr awyr agored, gydag ecosystemau llewyrchus a bioamrywiaeth gyfoethog. O roi’r arweiniad priodol, mae ganddynt y potensial i fod yn ardaloedd lle gall atebion arloesol i her cynaliadwyedd mewn ardaloedd gwledig bregus gael eu cloriannu, eu deall a’u cyhoeddi.*
>
> *Wrth inni yng Nghymru ddatblygu ein ffordd ein hunain o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus sy’n gysylltiedig â chynllunio, rheoleiddio defnydd tir a rheoli adnoddau naturiol, mae’n hanfodol peidio ag esgeuluso’r parciau cenedlaethol ac AHNE.*

Byddwn yn ystyried ein gweledigaeth a’n huchelgais tymor canolig i hir ar gyfer ein tirweddau dynodedig yng ngoleuni ein hadroddiad Cam Un a’r argymhellion ynddo, cyn ystyried y ffordd fwyaf effeithiol o wireddu’n gweledigaeth a’n huchelgais, a’n cyfeiriad i’r perwyl hwnnw. Mae hyn yn cynnig *“her fawr”* amserol a phwysig ar gyfer y tirweddau dynodedig o gylch y cwestiwn hwn: *“pa rai yw’r trefniadau llywodraethu mwyaf effeithiol ar gyfer y tirweddau dynodedig sy’n caniatáu iddynt arwain a sicrhau canlyniadau uchelgeisiol yng Nghymru a thros Gymru?* Bydd y Panel yn eu cymharu â modelau llywodraethu eraill, yn y DU a thu hwnt, i fwydo’r gwaith.

Rydym wedi cael ar ddeall mewn ffordd bendant iawn bod Llywodraeth Cymru’n credu bod ein tirweddau dynodedig yn asedau cenedlaethol sy’n esgor ar nifer fawr

o fuddiannau. Disgwylir iddynt helpu'r genedl i gyflawni blaenoriaethau economaidd, cymdeithasol yn ogystal ag amgylcheddol ehangach ac uchelgeisiol tra'n parhau'n dirweddau unigryw ac arbennig. Disgwylir iddynt hefyd fod yn esiamplau o waith ar draws portffolios mewn meysydd fel iechyd, addysg a thwristiaeth a threchu tlodi gan sicrhau 'twf gwyrdd' go iawn.

Bydd Panel yr Adolygiad yn falch iawn pe baech chi neu'ch sefydliad yn cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig ynghylch trefniadau llywodraethu y tirweddau dynodedig **hyd at xxxx 2015**. Mae'r llythyr hwn yn cyflwyno Cam Dau tra bod y cwestiynau y carem glywed eich barn a thystiolaeth amdanynt ar y dudalen sy'n dilyn. **Rydym am gynnal sesiynau casglu tystiolaeth hefyd gyda rhanddeiliaid ganol neu ddiwedd mis Mai. *Gallai* Ysgrifenyddiaeth y Panel gysylltu â chi maes o law ynglŷn â hyn.**

Ar ôl y dyddiad cau uchod, byddwn yn dadansoddi'r dystiolaeth cyn ei chynnwys yn yr adroddiad terfynol y byddwn yn ei gyflwyno i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol ddiwedd mis Gorffennaf 2015.

Mae Cam Dau yn gyfle inni greu gweledigaeth a fframwaith llywodraethu realistig ar gyfer tirweddau dynodedig Cymru a fydd yn eu galluogi i gyflawni er budd cenedlaethau heddiw ac yfory. Edrychwn ymlaen at eich gweld yn parhau i gymryd rhan ac am eich tystiolaeth a'ch cyfraniadau.

Yn gywir,

**Yr Athro Terry Marsden**
Cadeirydd
Yr Adolygiad o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru

**Cyflwynwch eich tystiolaeth a'ch sylwadau erbyn xxxx 2015:**

**Post:**
Adolygiad o'r Tirweddau Dynodedig yng Nghymru
Trydydd Llawr, Craidd y De, CO4
Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays
Caerdydd,
CF10 3NQ

**E-bost:**
designatedlandscapesreview@wales.gsi.gov.uk

Os hoffech weld adroddiad Cam Un, ewch i **www.tinyurl.com/DLRWales**

**Yr Adolygiad o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru**

**Cam Dau**

**Cefndir**

Mae Gweinidogion am wneud yn siŵr bod tirweddau dynodedig Cymru yn gallu wynebu heriau heddiw ac yfory ac yn esiamplau rhyngwladol o sut i fod yn gynaliadwy.

Cafodd yr adolygiad hwn ei gomisiynu ganddynt ym mis Medi 2014 i ystyried a yw'r trefniadau cyfredol yn ddigonol i gyflawni'r amcanion hyn ac os nad ydynt, beth sydd angen ei newid i wneud yn siŵr eu bod. Bydd yr Adolygiad yn gofyn i'r cyhoedd a rhanddeiliaid tirweddau dynodedig gyfrannu at gasglu, archwilio ac asesu tystiolaeth ynghylch dynodiad, pwrpas, amcanion a llywodraethiant tirweddau dynodedig yng Nghymru.

Yn y tymor canolig i hir, rhaid i'r trefniadau newydd alluogi unrhyw gorff/gyrff sy'n llywodraethu ein tirweddau dynodedig yn y dyfodol i ddatblygu a gwella ymhellach eu galluoedd strategol, gwneud polisi a chyflawni fel eu bod yn:

i. Gwireddu pwrpasau tirweddau dynodedig.
ii. Yn diogelu rhinweddau arbennig y tirweddau dynodedig.
iii. Yn gwneud y gorau o botensial yr ardaloedd hyn.
iv. Yn cefnogi rheolwyr adnoddau naturiol.
v. Yn esiamplau, yn enwedig o safbwynt rheoli tirweddau a chynaliadwyedd.
vi. Yn datblygu ffordd glir a chyson o gydweithio
vii. Yn rhoi arweiniad cenedlaethol ac yn defnyddio adnoddau yn y ffordd fwyaf effeithiol posibl
viii. Yn osgoi dyblygu ac yn gwneud y defnydd gorau o arbenigeddau prin.
ix. Yn atgyfnerthu atebolrwydd a phenderfyniadau lleol.

Ym mis Ionawr 2015, cyhoeddodd yr Adolygiad o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru ei adroddiad Cam Un ar bwrpasau a dyletswyddau tirweddau dynodedig, ac ai'r un dynodiad ddylai gael ei roi i Barciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol.

**Cylch gorchwyl a chylch gwaith**

Ers hynny, mae'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol wedi diweddaru'r Adolygiad ac wedi ysgrifennu at Gadeirydd yr Adolygiad, yr Athro Terry Marsden (wedi'i amgáu, er hwylustod) i esbonio cylch gorchwyl a chylch gwaith Cam Dau yr Adolygiad.

Yn y cam hwn, gofynnwyd i'r Adolygiad ystyried:

- Trefniadau rheoli a llywodraethu ein tirweddau dynodedig;
- Sut y dylai cyrff llywodraethu/rheoli yn y dyfodol hyrwyddo cydweithredu a gweithio ar y cyd gan osgoi dyblygu;
- Sut y dylai corff llywodraethu yn y dyfodol atgyfnerthu atebolrwydd a phenderfyniadau lleol.

Gofynnwyd i'r Adolygiad ystyried hefyd rôl Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol fel awdurdodau cynllunio, sut y gallai byrddau'r asedau cenedlaethol hyn adlewyrchu cymdeithas Cymru'n well o ran rhywedd, anabledd a thras ethnig a'r materion penodol ynghylch trefniadau llywodraethu Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol a godwyd gan yr Adolygiad o Wasanaethau Cyhoeddus a Chyflawni a gyhoeddwyd y llynedd.

Mae'r cwestiynau canlynol wedi'u llunio i helpu'r Adolygiad i adnabod a chasglu'r dystiolaeth sydd ei hangen ii dod i'w gasgliadau ar gyfer Cam Dau.  Mae'r Athro Marsden yn cyfeirio at y cwestiwn cyntaf yn ei lythyr esboniadol fel yr "Her Fawr". Mae'r cwestiynau eraill wedi'u llunio i helpu'r Panel ac eraill i ddod i'w casgliadau.

**<u>Cwestiynau ar gyfer Cam Dau</u>**

| | |
|---|---|
| **1** | **Pa rai yw'r trefniadau llywodraethu mwyaf effeithiol ar gyfer y tirweddau dynodedig sy'n caniatáu iddynt roi arweiniad a sicrhau canlyniadau uchelgeisiol yng Nghymru a thros Gymru?**<br><br>Er mwyn ateb y cwestiwn hwn, efallai y carech ystyried ac ymateb i'r cwestiynau ychwanegol cysylltiedig hyn: |
| **2** | **Yng ngoleuni adroddiad Cam Un yr Adolygiad a'i argymhellion a datganiad y Gweinidog Cyfoeth Naturiol (ar 4 Mawrth), beth yw'ch gweledigaeth ac uchelgais o ran cyfeiriad tirweddau dynodedig Cymru yn y tymor canolig i hir?** |
| **3** | **O safbwynt y trefniadau llywodraethu, pa ffactorau sy'n rhwystro a/neu'n debygol o rwystro tirweddau dynodedig rhag gwireddu'r weledigaeth a'r uchelgais rydych wedi'u disgrifio yng nghwestiwn 2?** |
| **4** | **O safbwynt y trefniadau llywodraethu, pa ffactorau fyddai'n galluogi'r tirweddau dynodedig i wireddu'r weledigaeth a'r uchelgais rydych wedi'u disgrifio yng nghwestiwn 2?** |
| **5** | **A oes modelau/dulliau ar gyfer llywodraethu tirweddau dynodedig/ ardaloedd gwarchodedig y carech dynnu sylw'r Adolygiad atynt?** |

# Eitem 8

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | 24 Mehefin 2015 |
| **TEITL** | Diweddariad ar Brosiectau |
| **PWRPAS** | Diweddaru Aelodau |
| **AWDUR** | Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr Wybodaeth |

**1.0 CYFLWYNIAD**

1.1 Cyflwynir yr adroddiad hwn er gwybodaeth i aelodau'r Cydbwyllgor, am brosiectau diweddar y bu'r Uned AHNE yn ymwneud â nhw.

**2.0 ARDALOEDD CADWRAETH LLŶN**

2.1 Yn y cyfarfod diwethaf o'r Cydbwyllgor adroddwyd fod prosiect Ardaloedd Cadwraeth Llŷn yn cael ei weithredu. Y prosiect oedd paratoi Gwerthusiad a Chynllun Gwella ar gyfer yr Ardaloedd Cadwraeth yn AHNE Llŷn. Roedd yr Astudiaeth yn edrych yn benodol ar:

Aberdaron, Clynnog, Llanaelhaearn, Llanengan, Llangian, Llaniestyn, Porthdinllaen, Nefyn, Trefor

2.2 Fel yr adroddwyd, Cwmni lleol Burum, ar y cyd gyda'r Pensaer Maredudd ap Iestyn, a benodwyd i wneud y gwaith. Fel rhan o'r prosiect cynhaliwyd gweithdy gyda'r Swyddogion Cynllunio ag AHNE.

2.3 Bellach mae'r Adroddiad terfynol wedi ein cyrraedd. Mae copi o'r crynodeb gweithredol wedi ei gynnwys fel atodiad. Mae copi o'r Adroddiad llawn, sydd yn manylu ar y pentrefi unigol, ar gael gan yr Uned AHNE.

2.4 Cam nesaf y gwaith, os bydd adnoddau yn caniatáu, fydd ceisio gwireddu argymhellion yr Adroddiad a gwella cyflwr yr Ardaloedd Cadwraeth yn yr AHNE trwy gydweithio a sicrhau cyllid.

**3.0 PROSIECT Y RHYFELOEDD BYD**

3.1 Un arall o'r prosiectau ymchwil oedd wedi ei adnabod yn y Cynllun Rheoli presennol oedd effaith a dylanwad y Rhyfeloedd Byd ar amgylchedd a chymdeithas yr ardal. Lluniwyd briff ar gyfer y prosiect i roi amlinelliad o beth oedd ei angen a chynigiodd Mr Elfed Gruffydd i wneud y gwaith.

3.2 Mae Elfed wedi canolbwyntio ar Y Rhyfel Byd Cyntaf hyd yma. Mae wedi casglu toreth o wybodaeth ddiddorol, yn cynnwys cofnodion o rai aeth i ryfel, y rhai a fu farw, copïau o luniau, llythyrau, hysbysebion. Mae'r Uned AHNE wedi derbyn

drafft o’r gwaith ac mae crynodeb wedi ei atodi gyda’r adroddiad hon. Mae Elfed bellach wedi symud ymlaen i elfennau o’r Ail Ryfel Byd fel yr olion ym Mhenyberth a Chefnleisiog, Neuaddau Coffa a’r Efaciwîs.

## 4.0 GŴYL YR ARFORDIR

4.1 Unwaith eto eleni mae’r Uned AHNE wedi cydgordio’r Wyl Arfordir a dylunio pamffled yn hyrwyddo digwyddiadau’r Wŷl. Mae’n cynnwys gwybodaeth am ddigwyddiadau sydd wedi eu trefnu gan yr Uned AHNE a’n partneriaid i godi ymwybyddiaeth am yr ardal gan hyrwyddo’r nodweddion sydd yn gwneud Llŷn mor arbennig. Mae 2,000 copi o’r pamffled wedi ei hargraffu ac wedi ei dosbarthu rhwng y partneriaid a’r canolfannau croeso.

## 5.0 ARGYMHELLIAD

5.1 Derbyn yr wybodaeth.

# ARDALOEDD CADWRAETH LLŶN

# CRYNODEB GWEITHREDOL

Comisiynwyd BURUM yn Rhagfyr 2014 i i gynnal gwerthusiad o'r naw Ardal Gadwraeth sydd o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithiriadol (AHNE) Llŷn. Roedd disgwyl i'r gwaith:

- Adolygu a diweddaru'r asesiad a wnaed yn 2003 gan gwmni BDP;
- Adnabod beth sydd wedi newid ers yr asesiad hwnnw er gwell er gwaeth;
- Asesu a diweddaru beth sydd yn cyfrannu at gymeriad arbennig yr Ardaloedd Cadwraeth;
- Adnabod yr hyn sydd angen ei wneud i'w cynnal a'u gwarchod at y dyfodol.

Lluniwyd yr adroddiad a'i ganfyddiadau o gwmpas y camau allweddol canlynol:

- Darllen adroddiad a chanfyddiadau BDP;
- Ymgymryd ag ymchwil desg i ddeall newidiadau i'r cyd-destun o safbwynt deddfwriaeth, polisi ac agwedd gyffredinol at Ardaloedd Cadwraeth;
- Adnabod canllawiau ac ymarfer da yn y maes;
- Ymgymryd â gwaith maes;
- Ymgysylltu gyda Chynghorau Cymuned a rhai rhan-ddeiliaid eraill allweddol i gael eu barn;
- Llunio argymhellion gwella ar gyfer pob un o'r naw ardal gadwraeth;
- Cynnig arweiniad o ran mesurau a fydd yn cynorthwyo'r Cyngor i gynnal a gwella cymeriad yr ardaloedd at y dyfodol;
- Llunio adroddiad drafft a therfynol a fydd yn tynnu canfyddiadau, casgliadau ac argymhellion at ei gilydd.

Mae'r adroddiad wedi ei rannu'n ddwy ran. Mae'r rhan gyntaf yn archwilio'r cyd-destun/amgylchedd allanol a'r hyn sydd wedi newid ers 2003. Mae'r ail ran yn cloriannu ac asesu'r newidiadau a welwyd yn y naw Ardal Gadwraeth ers 2003.

Cyflawnwyd y gwaith rhwng Rhagfyr 2014 a Mawrth 2015.

## Cynllun Rheoli AHNE Llŷn

Yn y Cynllun Rheoli gwreiddiol (2005-2009) cyfeirir at gyflwr yr ardaloedd cadwraeth ac argymhellion o ran eu ffiniau:

*Tabl 1*

| ANHEDDLE | CYFLWR | ARGYMHELLIAD |
|---|---|---|
| Aberdaron | Ar y cyfan wedi ei gynnal yn dda | Dim Newid |

| | | |
|---|---|---|
| Nefyn | Amrywiol | Dynodi estyniad |
| Porthdinllaen | Unigryw | Dynodi estyniad |
| Llangian | Wedi ei gynnal yn arbennig o dda | Gwarchodaeth Ychwanegol |
| Llanengan | Wedi ei gynnal yn dda | Gwarchodaeth Ychwanegol |
| Llainestyn | Wedi ei gynnal yn dda | Gwarchodaeth Ychwanegol |
| Trefor | Wedi ei gynnal yn weddol dda | Dynodi estyniad a gwarchodaeth ychwanegol |
| Llanaelhaearn | Wedi ei gynnal yn weddol dda | Dynodi estyniad a gwarchodaeth ychwanegol |
| Clynnog Fawr | Cymeriad arbennig ond rhai datblygiadau yn amharu | Gwarchodaeth Ychwanegol |

Mae'r Cynllun Rheoli presennol (Cynllun 2010 - 2015) yn mesur y cynnydd a fu o ran gweithredu'r cynllun blaenorol. Mae estyniadau wedi eu cymeradwyo ar gyfer Nefyn, Trefor a Llanaelhaearn. Ni weithredwyd camau i gynnwys gwarchodaeth ychwanegol ar gyfer yr aneddleoedd penodol dan sylw.

Er bod y prosiect hwn yn cyflawni'r weithred o arolygu'r ardaloedd cadwraeth y mae'r gwaith o lunio cynlluniau rheoli a'u gweithredu eto i'w cyflawni.

## Statws

Mae pwysigrwydd ardaloedd cadwraeth ar un wedd wedi cynyddu ers 2003. Maent yn cael eu cydnabod fel rhan o'r teulu a elwir bellach yn "asedau treftadol" sy'n cyfrannu at:

- Bywiogrwydd economaidd a diwylliant;
- Balchder dinesig ac ansawdd bywyd;
- Fel adnodd ar gyfer y cenedlaethau i ddod.

Mae asedau treftadol hefyd yn cael eu cydnabod fel arf gydnabyddedig o ran adfywio economaidd.

## Deddfwriaeth

O ran deddfwriaeth yn ymwneud ag Ardaloedd Cadwraeth ni fu newid penodol yn y maes.

Fodd bynnag, adnabwyd rhai newidiadau yn y maes cynllunio a all gael effaith ar ardaloedd cadwraeth gan gynnwys rhai newidiadau i hawliau a ganiateir i dir domestig ac annomestig. Bu rhai newidiadau hefyd i Reoliadau Adeiladu yn ymwneud ag effeithlonrwydd ynni. Mae'r Mesurau Cynllunio a Threftadaeth hefyd yn cynnig newidiadau i'r cyd-destun deddfwriaethol.

Er nad yn rhan uniongyrchol o'r fframwaith cyfreithiol mae'r Undeb Ewropeaidd a'r gwladwriaethau unigol wedi cefnogi offeryn *Y Cytundeb (Confensiwn) Ewropeaidd ar y Dirwedd*. Mae hwn yn cynnwys oblygiadau pwysig o safbwynt statws ardaloedd cadwraeth fel tirwedd.

## Polisïau Cenedlaethol

Mae adran 2 o Bolisi Cynllunio Cymru yn atgyfnerthu statws y Cynllun Datblygu Lleol wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio ac yn pwysleisio'r angen i'r cynlluniau fod yn glir a chryno.

Mae Adran 6 o Bolisi Cenedlaethol Cymru yn nodi mai "dynodiad ardal gadwraeth yw'r prif offeryn ar gyfer rhoi polisïau cadwraeth ar waith mewn cymdogaeth neu ardal benodol". Mae'n cydnabod fod angen rheoli ardaloedd cadwraeth yn gadarnhaol os yw eu cymeriad neu eu golwg i'w ddiogelu a'u gwella. Mae disgwyl i awdurdodau lleol bennu meini prawf cyson ar gyfer adolygu ardaloedd cadwraeth a/neu newydd, a'u ffiniau.

Mae Nodyn Technegol Cynllunio Rhif 12 ar *Ddylunio* a gyhoeddwyd yng Ngorffennaf 2014 yn cynnwys cyngor generig ar ddylunio da. Mae'n pwysleisio'r angen i arfarnu'r cyd-destun (gan gynnwys "hanes naturiol a dynol yr ardal").

### Polisïau Lleol

Mae'r polisïau cynllunio perthnasol wedi eu cynnwys yn y Cynllun Datblygu Unedol. Nid oes Arfarniadau Ardal Gadwraeth, Cynlluniau Ardal Gadwraeth na Strategaethau Gweithredu wedi eu cyhoeddi ers y cynllun adnau a gyhoeddwyd yn 2004.

### Sbardunau Newid

Aseswyd sut y mae'r sbardunau newid a adnabuwyd yn y Cynllun Rheoli AHNE Llŷn presennol - wrth drafod yr amgylchedd hanesyddol - yn dylanwadu yn y cyfnod hyd at 2015. Mae Tabl 2 yn crynhoi'r asesiad hwnnw.

O ran effeithiau cadarnhaol mae'r cyfnod o gyni economaidd wedi golygu mai cymharol isel fu'r buddsoddiad mewn gwella tai ac mewn trosi adeiladau hanesyddol. Ychydig felly fu'r difrod difeddwl i edrychiad ac chymeriad y rhan fwyaf o'r ardaloedd cadwraeth. Ar y llaw arall bu lleihâd sylweddol mewn buddsoddi cyhoeddus i gynnal a gwella'r ardaloedd hyn. Bu rhai datblygiadau newydd yn cael effaith negyddol ar rhai o'r ardaloedd cadwraeth neu osodiad yr ardaleodd hyn. Lle bu gwela tai mae awgrym fod perchnogion eiddo (gan amlaf yn ddiarwybod) yn parhau i ddefnyddio defnyddiau neu ddyluniadau anaddas.

Yr hyn sydd heb ei ddarogan yw'r cwmpas a lefel y buddsoddiad cyhoeddus mewn safleoedd neu adeiladau treftadol yn ystod y deng mlynedd diwethaf. Mae'r cyfanswm dros **£30 miliwn**.

Er hyn 'does nemor ddim neu gymharol ychydig sydd wedi bod yn yr amgylchedd trefol - ac yn benodol yr Ardaloedd Cadwraeth. Mae dadl felly fod perygl i ddiffyg buddsoddiad yn yr Ardaloedd Cadwraeth hyn danseilio'r ymdrechion i godi gwerth "cynnyrch neu gynnig" Llŷn a bydd hynny yn ei dro yn tanseilio'r budd a ddaw o'r buddsoddiadau sylweddol.

## Casgliad

Yn sgil cryfhau statws y dreftadaeth adeiledig fel "tirweddau arbennig " ac fel "asedau treftadol" mae angen adolygu eu cyfraniad yn lleol i fywyd ehangach yr AHNE. Mae'r angen i wneud hyn wedi ei atgyfnerthu gan gynnig y Panel ar Adolygiad o'r Tirweddau Dynodedig i ailenwi ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol yng Nghymru yn dirweddau cenedlaethol a rhoi iddynt yr un statws â phrciau cendlaethol fel tirweddau.

Mae crynodeb a disgrifiad llawn o'r asesiadau unigol wedi eu cynnwys yn Rhan 2 o'r adroddiad.

Mae'r asesiad o'r naw ardal gadwraeth yn Rhan 2 yn awgrymu fod cyflwr yr ardaloedd at ei gilydd yn parhau i ddirywio. Mae hynny'n bennaf oherwydd dyluniad diffygiol a defnydd amhriodol o ddefnyddiau gan berchnogion eiddo

Yr hyn sydd yn gyffredin i nifer o'r Ardaloedd Cadwraeth yw'r angen i wella'r canlynol:

- Manylion pensaernïol - drysau a ffenestri o ddyluniad a lliw anaddas wedi eu gosod i nifer o'r adeiladau;
- Llawer o'r ffenestri wedi eu gosod yn y man anghywir yng nghil yr agoriad;
- Llinell y toeau, a manylion bargod a bondo;
- Gorffeniad waliau allanol e.e. diddymu chwipiad ac ail osod y gorffeniad gwreiddiol;
- Ansawdd a dyluniad y ffyrdd a'r gofodau cyhoeddus;
- Trefn dodrefn y stryd gan gynnwys yr arosfannau bysus;
- Cyflwr ac edrychiadau adeiladau masnachol;
- Safleoedd blêr o fewn yr ardaloedd cadwraeth trefol;
- Dyluniad anaddas gan nifer o ddatblygiadau diweddar y tu allan i'r Ardal yn achosi dirywiad yng ngosodiad yr Ardal.

Yn lleol er bod rhywfaint o ymwybyddiaeth a chydnabyddiaeth o bwysigrwydd cynnal a gwella'r asedau treftadol, nid yw'r ymwybyddiaeth a'r gydnabyddiaeth honno wedi treiddio i fywyd cyhoeddus a phreifat ehangach. Mae angen felly cynyddu ymwybyddiaeth o gyfrifoldeb a chyfraniad perchnogion eiddo domestig ac annomestig i gynnal, cadw a gwella. Awgrymwn fod gan y cymunedau eu hunain ran allweddol i'w chwarae yn y broses addysgiadol hon.

Ar sail yr asesiadau hyn rydym yn argymell fod angen cryfhau gwarchodaeth o'r ardaloedd hyn dwy gyflwyno rheolaeth ar hawliau datblygiadau a ganiateir i gydredeg gyda'r rhaglen addysgiadol a sicrhau cydymffurfiaeth gydag rheolau ac amodau datblygu.

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu hefyd fod angen adolygu'r sylw a'r pwysigrwydd a roddir i osodiadau'r ardaloedd cadwraeth wrth asesu ceisiadau am ddatblygiadau newydd ar neu wrth ymyl ffiniau'r ardaloedd hynny.

Mae hefyd angen buddsoddi yn y gofod cyhoeddus yn yr ardaloedd cadwraeth allweddol er mwyn cefnogi ac ategu'r buddsoddiadau sylweddol a fu mewn adeiladau treftadol unigol a'r amgylchedd naturiol.

Mae angen buddsoddi mewn rhaglen o ddatblygu a gwella sgiliau treftadol er mwyn cynyddu capasiti a chadw'r budd yn lleol.

Yn wyneb y bygythiadau a'r mesuriadau lliniaru a ddaw yn sgil newid yr hinsawdd mae angen mynd i'r afael ar sut orau i baratoi ardaloedd cadwraeth ar gyfer ymdopi'n benodol gyda glawiad a stormydd mwy tymhestlog a chyson a cadw golwg ar y modd y mae trigolion yn ymateb i'r newidiadau hyn.

## ARGYMHELLION

*Argymhelliad 1: 'Rydym yn argymell fod gan y Cynllun Rheoli AHNE Llŷn nesaf rôl bwysig o ran arwain y ffordd ar gyfer rhoi'r strategaeth a chynlluniau rheoli penodol ar gyfer yr ardaloedd cadwraeth yn AHNE Llŷn yn eu lle gan gymryd i ystyriaeth yr angen i sicrhau fod yr ardaloedd yn "addas i bwrpas" yn sgil heriau newidiadau i'r hinsawdd.*

*Argymhelliad 2: Cynnal cynhadledd i ran-ddeiliaid  i ystyried sut y mae modd sicrhau fod yr Ardaloedd Cadwraeth yn chwarae eu rhan yn llawnach yng nghyfraniad asedau treftadol yr ardal tuag at ei hadfywiad;*

*Argymhelliad 3: Gweithio a chefnogi trigolion a'r gymuned fusnes i adnabod adeiladau o bwysigrwydd treftadol leol ac i lunio Arweinlyfr I Ddyluniad Da ar gyfer eu Hardal Gadwraeth leol;*

*Argymhelliad 4: Cychwyn rhaglen o addysgu ac hyfforddi rheolwyr datblygu a gofalwyr y gofodau cyhoeddus o'r pwysigrwydd o warchod a gwella golwg a chymeriad ardaloedd cadwraeth a'u pwysigrwydd yn arbennig  i dreftadaeth ac economi Penrhyn Llŷn;*

*Argymhelliad 5: Ystyried neilltuo cyfran o gronfeydd presennol neu sefydlu cronfa newydd benodol i roi anogaeth bellach i berchnogion a deiliaid tai ac eiddo i fuddsoddi a defnyddio ffenestri, drysau, defnyddiau wal a tho, ac offer technoleg cyfathrebu a  goleuo  mwy addas;*

*Argymhelliad 6: Annog trigolion a busnesau i leoli paneli haul, tyrbinau gwynt, a ffynonellau eraill o ynni adnewyddiadwy micro i doeau a thalcenni llai amlwg lle nad ydynt yn cael effaith andwyol ar gymeriad ac edrychiad yr ardal gadwraeth.*

*Argymhelliad 7: Arddel  Cyfarwyddyd Erthygl 4 (2) i gyfyngu hawliau gorchuddio, peintio a rendro waliau, ail-doi ac estyniadau, gan gychwyn gyda'r adeiladau a strydoedd sy'n bwysig o ran gosodiad adeiladau a strwythurau eraill o bwysigrwydd treftadol ac economaidd.*

*Argymhelliad 8: Cydweithio gydag  ymgymerwyr statudol i sefydlu cyd-ddealltwriaeth ar ddulliau i reoli'r gofod cyhoeddus yn yr ardaloedd cadwraeth gan gynnwys rhesymoli'r defnydd o strwythurau nad oes eu hangen neu eu disodli gyda defnyddiau mwy addas lle bo hynny'n briodol.*

*Argymhelliad 9: Cydweithio gyda'r Gwasanaeth Priffyrdd a Chynllunio i lunio cynlluniau strydwedd yn y rhannau allweddol o'r Ardaloedd Cadwraeth hynny sy'n bwysig o ran gosodiad adeiladau a strwythurau eraill o bwysigrwydd treftadol ac economaidd;*

Mae nifer o argymhellion penodol yn cyfarch y sefyllfa yn yr Ardaloedd Cadwraeth unigol ac y mae'r rhain wedi eu rhestru yn llawn yn Rhan 2.

# Prosiect Ymchwil AHNE

## Y Rhyfel Byd Cyntaf, Elfed Gruffydd

### Cofebau Ardal

- Coffeir y mwyafrif helaeth o fechgyn a dwy ferch o Lŷn a gollwyd yn y Rhyfel Mawr ar gofebau ardal.
- Ychydig o wybodaeth sydd ar gael am hanes codi'r cofebau (anodd fu cael cofnodion y pwyllgorau trefnu neu restrau cyfraniadau).
- Seremonïau urddasol i ddadorchuddio ym Mhwllheli a Nefyn.
- Ychwanegu placiau coffa arnynt yn dilyn yr Ail Ryfel Byd.
- Ceir Cofeb Gogledd Cymru ym Mangor ble ceir enwau'r rhai a gollwyd. Mae gwefan Keith Parry yffor.com wedi ei sylfaenu ar y rhestr hon. Ceir sawl ffynhonnell enwau na chynhwysir ym Mangor, ac enwau ym Mangor na ellir eu holrhain yn y wasg neu ar gofebau lleol.
- Ceir manylion a lluniau am gofebau'r ardaloedd isod:
  **Aberdaron, Abererch, Boduan, Bryncroes, Clynnog Fawr, Dinas, Edern, Llanaelhaearn, Llanbedrog, Llanengan, Llannor, Llithfaen, Morfa Nefyn, Nefyn, Pistyll, Pwllheli, Rhiw, Rhydyclafdy, Sarn, Y Ffôr.**
- Mae amrywiaeth aruthrol ymhlith y cofebau, eu cynllun, geiriad, lleoliad ayb.
- Mae 20 o gofebau yn Llŷn ond ni chodwyd rhai yn Llangian (sy'n cynnwys Mynytho) na Thudweiliog. Ond roedd Sgweiriaid 'stadau Cefnamwlch a Nanhoron yn frwd eu cefnogaeth i'r rhyfel ac yn annog bechgyn yr ardal i wirfoddoli.
- Nid oes cofeb chwaith i blwyf Botwnnog a dim ond un o Fotwnnog sydd ar y gofeb ym Mangor.
- Er bod Trefor ym mhlwyf Llanaelhaearn ni chynhwyswyd enwau bechgyn y pentref ar y gofeb.
- Nid oes cofeb i blwyf Llaniestyn. Lleolwyd y gofeb (pam tybed?) yn Ninas, a honno wedi'i chodi gan 'ardalwyr Dinas, Greigwen a Garnfadryn'.
- Nid oes cofeb ym mhlwyf Llangwnnadl. Yr unig dystiolaeth i un o'r plwyf gael ei golli yw enw G Griffith ar gofeb Bangor.
- Mae geiriad ar y cofebau fel y gellid disgwyl yn amrywio'n arw, y dyfyniadau yn ddiddorol a rhai ohonynt na ellir olrhain eu hawduron.
- Mae enwau rhai bechgyn yn ymddangos ar fwy nag un gofeb, arwydd o falchder mae'n debyg ac am anrhydeddu bechgyn gyda chysylltiadau lleol, Mae hyn yn awgrymu 'hawlio arwyr'.

### Cofebau i unigolion

- Ceir cofebau i unigolion yn y lleoliadau isod ac mae manylion a lluniau wedi eu cynnwys:

**Aberdaron (Eglwys St Hywyn), Abersoch (Capel Annibynwyr a Chapel Calfaria), Efailnewydd (Capel Berea), Garnfadryn (Capel), Llanbedrog (Capel Peniel Newydd, Capel Rehoboth, Eglwys St Pedrog), Llangian (Eglwys), Penllech (Eglwys St. Fair), Pwllheli (Capel Salem, Eglwys St Pedr, Capel Seion, Capel Tarsis), Rhydyclafdy (Capel).**

- Rhai capeli ac eglwysi Llŷn wedi coffau eu haelodau trwy osod cofebau yn eu hadeiladau, boed yn blac ar wal neu'n ffenest lliw. Mae'r ymchwil yn cynnwys manylion unigol penodol am y gwahanol gofebau i unigolion. Eto mae amrywiaeth o blaciau, defnydd, geiriad a llythrennau.
- Collwyd meibion dau ficer, Aberdaron a Llanbedrog ac yn yr eglwysi gwelir festri a ffenestr liw i'w coffau.
- Gadawodd John G Roberts, yn wreiddiol o Garnfadryn gyfrolau a swm o arian yn ei ewyllys i sefydlu llyfrgell.
- Lluniwyd cofeb ar ffurf blwch casglu yn ddiweddar i goffau Glyn Roberts yn eglwys Penllech.

**Rholiau Anrhydedd**

- Ceir Rholiau Anrhydedd yn y capeli ac ysgolion canlynol ac fe geir lluniau a manylion amdanynt yn yr ymchwil:
  **Ysgol Bryncroes, Capel Brynmawr, Capel Dinas, Capel Garnfadryn, Capel Rehoboth Llanbedrog, Capel y Nant Nanhoron, Capel Penlan Pwllheli, Capel Penmownt Pwllheli, Salem/Taris Pwllheli, Capel Tabernacl Pwllheli, Capel y Traeth Pwllheli.**
- Yn y festrïoedd a'r capeli a restrir uchod gwelir 'Rholiau Anrhydedd' hardd wedi'u fframio yn enwi, nid y rhai laddwyd ond yr holl fechgyn a ymunodd â'r fyddin a'r llynges.
- Ceir amrywiaeth o gynlluniau, ysgrifen a chyflwyniad, rhai wedi'u cynllunio'n gelfyddyd a'u lliwio â llaw.
- Ceir lluniau'r bechgyn o Garnfadryn ac Ysgoldy'r Traeth, Pwllheli.
- Lluniwyd llyfryn ym Mhenmownt a'r Traeth a chynnwys lluniau'r bechgyn ynddo.

**Milwyr unigol**

- Mae Elfed wedi manylu ar ambell i filwr ble ceir y mwyaf o wybodaeth a hanes amdano. Mae'r ymchwil yn amlygu'r ofn a'r ansicrwydd a'r orfodaeth i ffarwelio a theulu. Dyma'r adran fwyaf personol o'r ymchwil wrth i'r dystiolaeth gyflwyno ychydig o hanes unigol y teuluoedd a'r milwyr. Dau o'r milwyr y sonnir amdanynt ydyw Cynan a Tom Nefyn.

**Milwyr Ardaloedd Penodol** (Dylid ymdrin â'r adran hon ochor yn ochr a'r adran 'Cofebau')

- Mae ymdrech fawr wedi ei wneud i roi peth tegwch i'r bechgyn hynny ble nad oes cofeb ardal ar eu cyfer.
- Nid oes cofebau i fechgyn Llangian, Nanhoron, Trefor a Thudweiliog a Phenllech.

- Casglwyd cymaint o wybodaeth â phosib am fechgyn Bryncroes a Dinas a gwnaed peth gwaith ar Aberdaron a Phwllheli. Mae gobaith i ychwanegu'r ardaloedd eraill.

**Listio a Recriwtio**

- 'I'r Fyddin fechgyn Gwalia! Cas gwr nid cas ganddo elyn ei wlad. Cymru am Byth!
- Hanes dadl Lloyd George i sefydlu corfflu Cymreig.
- Hanes cyfarfodydd recriwtio yn Llŷn a'r teuluoedd bonedd ar flaen y gad.
- Dau ddwsin yn ymuno yn Nhudweiliog ar ôl Mrs Wynne Finch gymryd y gadair. Ar un llaw, roedd cael cymaint i ymuno mewn ardal mor wledig mor gynnar yn syndod. Ond, rhaid cofio mai'r teulu Wynne Finch oedd meistr tir, yn gyflogwr sylweddol ac yn ddylanwadol iawn yn Nhudweiliog.
- Toriadau papur newydd am gyfarfodydd ymrestru yn Llŷn.
- Posteri.

**Milwyr yn Llŷn**

- Hanes y 'Royal Artillery 43th Welsh Division yn dod i Bwllheli ar anogaeth y Cyngor Tref.
- Cynnwrf yn y dref yn gynnar yn 1915 pan ddaeth milwyr i'r dref gan aros yng nghartrefi'r trigolion. Y rheiny a gadwai ymwelwyr yn yr haf yn manteisio ar fusnes trwy'r flwyddyn.
- Roedd yr orsaf rheilffordd wedi agor ym Mhen Cob yn 1909 ac yno a ymgasglai'r torfeydd i groesawu'r milwyr.
- Sonnir am amodau caeth a osodwyd ar y lletywyr o ran bwydo'r milwyr a threfniadau cysgu a molchi.
- Trefnwyd oedfa ar y Sul ar gyfer y milwyr di-gymraeg.
- Mabolgampau ar eu cyfer
- Pryder am ormod o 'demtasiwn' i ferched Pwllheli a barnu ymddygiad rhai o ferched Pwllheli yn y wasg. Llythyr ymateb hefyd gan un o ferched y dref.
- Hanes rhai o filwyr yn dod adref am gyfnod.
- Hanes cwnstabliaid arbennig yn cael eu penodi yn Abersoch

**Y Belgiaid yn Llŷn**

- Goresgynnwyd Gwlad Belg ac roedd Prydain am ei gwarchod. Ffodd miloedd o'u gwlad a death tua 200,00 ohonynt i wledydd Prydain.
- Hanes y Belgiaid cyntaf yng Nghricieth
- Hanes caredigrwydd pobl Aberdaron.
- Er mae byr oedd arhosiad y Belgiaid, mae'n amlwg eu bod wedi cymysgu'n dda efo'r trigolion.

**Tribiwnlysoedd a'r Gyfraith**

- Roedd llai yn ymrestru o'u gwirfodd nag oedd yr awdurdodau wedi gobeithio felly death cynllun Derby i rym yn yr hydref. Disgwyl i bob dyn rhwng 19 – 41 ymrestru'n syth neu fod yn barod i wneud pan fo'r angen. Methiant fu'r cynllun hwn felly cyflwynwyd mesurau gorfodaeth.
- Apeliodd rhai i beidio gorfod mynd gan egluro eu rhesymau, gwelir rhai achosion o Lŷn yn yr ymchwil

**Ymweliad y Tramp**

- Ceir hanes taith y Parchedig J T Pritchard efo Bws Tocia o gwmpas Llŷn. Cofnod o'r sefyllfa yn Llŷn ar y pryd (haint y tatws, cyfarfodydd croesawu).

**Cynhyrchwch!**

- Fel yr ai'r rhyfel rhagddi cai ffermwyr Llŷn eu tynnu i mewn i'r cylch dieflig. Roedd y gweision yn mynd i ryfel, a'r awdurdodau yn pwyso ar ffermwyr i gynhyrchu mwy.
- Pwysigrwydd gwaith y cwnhingwr.
- Aed â dadleuon ar ran y cwnhingwr i'r tribiwnlysoedd ac mae'r dystiolaeth yn cael sylw yn yr ymchwil.
- Cysgod y rhyfel ar y Ffeiriau Pentymor
- Meibion ffermydd yn elwa pan sefydlwyd y coleg amaethyddol ym Madryn.
- Posteri 'Dig for Victory'.
- Merched y Tir
- Pysgota.

**Bywyd Cymdeithasol**

- Er gwaetha'r rhyfel roedd bywyd cymdeithasol yn Llŷn yn mynd rhagddo ac mae'r adran hon yn llawn gwybodaeth am hynny a hefyd gwybodaeth am daflen 'Cymanfa Dosbarth Penlleyn' yn cael ei chanu yn y ffosydd yn Ffrainc.
- Y Gymdeithas Lenyddol
- Trip yr Ysgol Sul
- Y Kinema
- Crefydd
- Y Ffliw Mawr – Ceir hanes y dioddef yn Llŷn yn sgil y Ffliw Mawr.

**Cynni**

- Pryder ers dyddiau cyntaf y rhyfel am brinder bwyd, ac fel pob amser, prinder yn codi prisiau.
- Prinder cig yn Nefyn.
- 'Pris Bwyd' a glo.
- Rheoli'r Wyau.
- Prinder Dŵr

- Cwyno fod Marchnad Pwllheli bellach yn farchnad i gyflenwi prynwyr o Gricieth, Porthmadog a thu hwnt.
- Dogni
- Chwareli Ithfaen a Mwynfeydd

**Cefnogi Milwyr Lleol a Mudiadau Dyngarol**

- Y dioddefaint yn ysgogi sefydlu nifer fawr o elusennau i gefnogi'r milwyr ar faes y gad a theuluoedd anghenus gartref.
- Ni fu pobl Llŷn yn brin eu cefnogaeth i bob mudiad gwerth ei gefnogi. Aent yn ddwfn i'w poced i helpu milwyr lleol mewn dyddiau o gynni.
- Ceir tystiolaeth o lythyrau Maer Pwllheli tuag at hogiau'r dref oedd yn y ffosydd.
- Cyngerdd yn Nhudweiliog i godi arian at hogiau 'Dweiliog a Phenllech.
- Cyfarfod er budd y milwyr yn Llithfaen.
- Chwiorydd Penygraig ac ardaloedd eraill yn paratoi dillad i'r milwyr ar gyfer y gaeaf.
- Llyfr log Ysgol Llaniestyn yn son am apêl i gael Pwdinau 'Dolig i'r bechgyn.
- Sonnir am y gefnogaeth o Lŷn i elusennau fel y Groes Goch ac eraill.
- *The National Egg Collection for the Wounded in Lleyn and Eifionydd*

**Arwyddion Rhyfel y Môr**

- Roedd y môr o gwmpas arfordir Llŷn yn rhoi profiadau uniongyrchol o arwyddion rhyfel i drigolion Llŷn yn ystod y Rhyfel Mawr.
- Hanes llongwyr o Lŷn – Colli llongau a bywydau
- Golchi cyrff i'r lan yn Abersoch. Claddu'r cyrff mewn mynwentydd lleol.
- Coffau'r rhai foddwyd pan suddwyd y 'BURUTU'.

**Ymweliadau'r Prif Weinidog**

- Roedd David Lloyd George yn ymwelydd cyson a Llŷn yn arbennig â Nefyn a Phwllheli o 1890 ymlaen fel eu Haelod Seneddol
- Eisteddfod Genedlaethol Bangor

**Dathlu diwedd y rhyfel a choffau**

- Y cadoediad
- Babanod oedd wedi eu geni yn ystod saf-arfau Tachwedd 11eg 1918, yn Llŷn ac Eifionydd yn derbyn Llwy Arian. Erthygl yn y Llanw yn gofyn am wybodaeth leol.
- Cyngherddau i groesawu milwyr yn ôl i Lŷn

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | 24 Mehefin 2015 |
| **TEITL** | Sefydlu Is-grŵp Cynllunio |
| **PWRPAS** | Cyflwyno’r cefndir o ran sefydlu Is-Grŵp Cynllunio |
| **AWDUR** | Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn |
| **ARGYMHELLIAD** | Peidio â sefydlu Is-grŵp Cynllunio |

**1.0 CYFLWYNIAD**

1.1 Mae’r Adroddiad hon yn rhoi sylw i’r dull o roi sylwadau ar faterion cynllunio am ddatblygiadau oddi mewn, a gerllaw'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Rhoddir ystyriaeth i sut y gwneir sylwadau gan y Rheolwr gwasanaeth a’r Cydbwyllgor AHNE a’r posibilrwydd o sefydlu Is-grŵp Cynllunio.

**2.0 SYLWADAU RHEOLWR GWASANAETH AHNE**

2.1 O dan y drefn bresennol (sy’n seiliedig ar Gytundeb Gwasanaeth) mae’r Rheolwr Gwasanaeth yr AHNE yn cael gwybodaeth am geisiadau cynllunio perthnasol gan yr Adran Gynllunio. Hefyd fe geir copi o restr ceisiadau cynllunio wythnosol sydd yn cynnwys gwybodaeth am yr holl geisiadau o fewn y Sir (ac eithrio’r Parc Cenedlaethol).

2.2 Mae disgwyl i’r Rheolwr Gwasanaeth AHNE wneud sylw ar y ceisiadau perthnasol o fewn yr amserlen a osodwyd (3 wythnos fel arfer). Bydd sylwadau’r Rheolwr AHNE yn cael eu hystyried gan y swyddog Cynllunio perthnasol wrth baratoi adroddiad dirprwyedig neu Adroddiad Pwyllgor.

**3.0 Y CYDBWYLLGOR YMGYNGHOROL**

3.1 Mae trafodaeth am faterion cynllunio yn y Cydbwyllgor o dro i dro. Yn ddiweddar mae trafodaeth helaeth wedi bod ar faterion tyrbinau gwynt ar y tir. Yn sgil hyn fe benderfynwyd mabwysiadu datganiad ar y mater yma, gyda’r Rheolwr Gwasanaeth yn ei gyflwyno ar ran y Cydbwyllgor ar geisiadau cynllunio perthnasol.

3.2 Mae trafodaeth wedi bod yn y cyfarfodydd hefyd ynglŷn â’r posibilrwydd o sefydlu Is-Bwyllgor i ystyried, a rhoi sylwadau, ar faterion cynllunio perthnasol i’r AHNE. Cyflwynwyd dadleuon o blaid ac yn erbyn hyn.

3.3 O ran Cyfansoddiad y Cydbwyllgor mae cyfeiriad at y posibilrwydd o alw cyfarfod o Is-grŵp Materion Cynllunio:

*“Bydd gan gadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol yr hawl i alw cyfarfod o Is-grŵp Materion Cynllunio i drafod a chynnig sylwadau ffurfiol ar ran y Pwyllgor Ymgynghorol ar geisiadau cynllunio sydd yn cael effaith uniongyrchol ar ddynodiad yr AHNE ac a dynnir i’w sylw fel mater brys gan y Swyddog AHNE neu Rheolwr Cynllunio Ardal Dwyfor.”*

3.4 Fel y nodwyd mae manteision ac anfanteision o sefydlu Is-grŵp cynllunio. Gwelir rhai o'r dadleuon isod:

**Manteision**

Medru ymateb yn gynt na chyfarfod llawn o'r Cydbwyllgor
Rhoi sylw unigol i faterion (yn hytrach na dibynnu ar ddatganiad cyffredinol)

**Anfanteision**

Cynyddu gwaith gweinyddu
Byddai raid i aelodau fod yn ofalus o ran rhag-ddatgan barn ar faterion cynllunio
Ydi Is-grŵp yn cynrychioli barn yr holl aelodau ?

## 4.0 CASGLIAD

4.1 Credir fod y drefn bresennol o roi sylwadau ar faterion cynllunio yn gweithio yn dderbyniol. Os oes mater arwyddocaol yn codi ei ben mae'r Cyfansoddiad yn nodi y gellir cynnal cyfarfod arbennig o'r Cydbwyllgor.

## 5.0 ARGYMHELLIAD

**5.1 Cadw at y drefn bresennol o ddelio gyda materion cynllunio a pheidio â sefydlu Is-Grŵp Cynllunio ar hyn o bryd.**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | 24 Mehefin 2015 |
| **TEITL** | Apêl Cynllunio – Tyrbin Gwynt, Crugeran, Sarn |
| **PWRPAS** | Cyflwyno gwybodaeth |
| **AWDUR** | Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn |
| **ARGYMHELLIAD** | Penderfynu ar sylwadau i'w cyflwyno |

**1.0 CYFLWYNIAD**

1.1 Mae'r Adroddiad hon wedi ei chynnwys ar raglen y Cydbwyllgor ar gais un o'r Aelodau Lleol.

1.2 Y mater dan sylw yw'r Apêl Cynllunio sydd wedi ei chyflwyno yn dilyn gwrthod hawl cynllunio i godi tyrbin gwynt ychwanegol ar dir ger Crugeran, Sarn Mellteyrn. **Gweler yr Atodiad am fwy o wybodaeth.**

**2.0 CAIS CYNLLUNIO GWREIDDIOL**

2.1 Gwnaed cais cynllunio am dyrbin gwynt, 3 llafn, 50kw yn mesur 34.2 medr o uchder ar fferm Crugeran yn 2014. Rhif y cais yw C14/0974/32/LL. Gellir gweld manylion y cais a'r holl ddogfennau atodol ar safle we Cyngor Gwynedd. Roedd nifer o ddogfennau cefndirol gyda'r cais yn cynnwys cynllun lleoliad, manylion y tyrbin, Datganiad Dylunio a Mynediad ayb.

2.2 Mae'r safle oddi allan i ffin yr AHNE ond byddai'r datblygiad yn amlwg o'r ardal ddynodedig, fel mae'r tyrbin sydd wedi ei godi eisoes yn dangos.

2.3 Gwnaed sylwadau gan y Rheolwr Gwasanaeth AHNE ar y cais, oedd yn cynnwys datganiad y Cydbwyllgor hwn. Gellir gweld copi llawn o'r sylwadau ar safle we'r Cyngor, a'r casgliadau oedd:

Yn sicr byddai tyrbin o'r math dan sylw yn creu cyfanswm sylweddol o drydan adnewyddol. Gall hyn olygu arbediad o allyriannau carbon ond bydd ynni a deunyddiau yn cael eu defnyddio i gynhyrchu'r tyrbin a'i osod yn ei le. Yn yr achos hwn mae 1 tyrbin eisoes wedi ei godi ar dir Crugeran er mwyn cyfrannu at incwm y busnes a chynaliadwyedd y fferm. Er nad yw'r safle'r datblygiad arfaethedig presennol wrth ymyl y tyrbin presennol mae'n rhaid ystyried effaith cronnol y 2 dyrbin gwynt ar y tirlun.

Mae'r ffaith fod llafnau'r tyrbin gwynt yn y troi yn golygu y bydd yr effaith gweledol yn fwy na strwythur sy'n llonydd -ac ni ellir cyfleu hyn mewn lluniau na photomontages. Cyflwynwyd gwybodaeth am effaith posibl y datblygiad yn y Datganiad Dylunio a Mynediad ond mae pryder ac amheuaeth am rai agweddau o'r wybodaeth yma.

Dynodwyd yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol er cynnal a gwarchod tirlun ac arfordir hardd ac arbennig Penrhyn Llŷn. Mae'r ardal lle bwriedir lleoli'r tyrbin yn agos i ffin yr AHNE a byddai'r tyrbin yn amlwg o rai mannau yn yr AHNE ac wrth edrych i gyfeiriad rhai mannau arwyddocaol yn yr AHNE (e.e. Porth Neigwl, Mynydd Rhiw a Garnfadryn).

Credir y byddai'r datblygiad yn elfen ddieithr ac ymwthiol ychwanegol ar dirlun gwledig a hanesyddol y rhan yma o dirlun Llŷn ac y byddai yn amharu ar osodiad yr AHNE a

golygfeydd i mewn ac allan o'r ardal warchodedig cenedlaethol a'r ardal sydd wedi ei nodi ar y Gofrestr o Dirluniau Hanesyddol.

Hefyd cynhwysir isod sylwadau gan Gydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn. Mae'r Cydbwyllgor wedi ei sefydlu ers 1997 gyda'r nod o gynghori'r Awdurdod Lleol a chyrff eraill ar faterion cadwraeth tirwedd a rheoli cefn gwlad ac amgylchedd sydd yn effeithio ar yr AHNE. Mae Aelodau Lleol, Cynghorau Cymuned, Mudiadau a Sefydliadau yn aelodau o'r Cydbwyllgor. Yn dilyn trafodaeth ar y mater bu i'r Cydbwyllgor fabwysiadu'r datganiad isod o ran tyrbeini gwynt gerllaw ffin yr AHNE:

***"Dylid gwrthod pob cais am dyrbin gwynt uwch na 11 medr o fewn ffin a golygfeydd y Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Llŷn ac Ynys Enlli, rhag achosi niwed sylweddol i osodiad a golygfeydd AHNE Llŷn."***

2.4 Paratowyd adroddiad ar y cais gan y Swyddog Achos ac ystyriwyd y cais drwy'r drefn ddirprwyedig gan benderfynu ei wrthod.

## 3.0 APÊL CYNLLUNIO

3.1 Gwnaed Apêl yn erbyn y gwrthodiad am hawl cynllunio gan yr ymgeisydd. Dyddiad cychwyn yr Apêl oedd Mai 19eg ac mae cyfnod o 6 wythnos ar gyfer cyflwyno sylwadau (erbyn Mehefin 30). Bydd angen anfon sylwadau yn uniongyrchol i'r Arolygaeth yng Nghaerdydd (bydd yr Apêl yn cael ei hystyried drwy'r drefn ysgrifenedig).

## 4.0 SYLWADAU PELLACH

4.1 Nid oes bwriad i gyflwyno sylwadau pellach o ran yr Uned AHNE gan fod y sylwadau gwreiddiol yn weddol fanwl. Fodd bynnag, gan mai datganiad cyffredinol a yrrwyd ar ran y Cydbwyllgor mi fyddai modd anfon sylwadau pellach sydd yn benodol i'r achos arbennig hwn.

4.2 Os am wneud sylwadau pellach anogir Aelodau i wneud sylwadau perthnasol ar sail materion cynllunio cadarn.

## 5.0 ARGYMHELLIAD

**5.1 Penderfynu ar sylwadau manwl i'w rhoi ar yr Apêl dan sylw ac awdurdodi'r Rheolwr Gwasanaeth i'w cyflwyno i'r Arolygydd ar ran y Cydbwyllgor.**

**Adran Rheoleiddio / *Regulatory Department***
**Gwasanaeth Cynllunio / Planning Service**
**Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio ac Amgylchedd**
***Senior Manager Planning and Environment Service***
**Gareth Jones**

SWYDDOG AHNE
UNED CEFN GWLAD A MYNEDIAD
CYNGOR GWYNEDD
SWYDDFA ARDAL DWYFOR
PWLLHELI
GWYNEDD
LL53 5AA

21/05/2015

| | |
|---|---|
| Cyf. Cyngor Gwynedd/*Gwynedd Ref.No:* | C14/0974/32/LL |
| Cyf. Llywodraeth Cynulliad Cymru / Welsh *Assembly Government Ref.No:* | APP/Q6810/A/15/3022085 |
| Dyddiad Cychwyn yr Apêl / *Appeal Starting Date:* | 19/05/2015 |
| Enw'r Apelydd / *Appellant's Name:* | Richard Parry |
| Swyddog / *Officer*: Gwenan Jones | |

| | |
|---|---|
| Bwriad / *Proposal*: | Gosod tyrbin gwynt ychwanegol gyda uchder i'r hyb o 24.6 medr a diamedr rotor o 19.2m a gyda uchder i frig y llafn o 34.2 medr / Install an additional wind turbine with a hub height of 24.6 metres and a rotor diameter of 19.2 metres giving a total height to blade tip of 34.2 metres |
| Lleoliad / *Location:* | Crugeran, Sarn, Pwllheli, LL538DT |

Annwyl Syr/Madam,

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990 - Apêl o dan Adran 78(i)**

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu bod apêl wedi ei wneud i Lywodraeth Cynulliad Cymru parthed y safle uchod. Gwneir penderfyniad ar yr apêl ar sail: Ysgrifenedig / Written, ac os yn wrandawiad anffurfiol neu gyhoeddus, byddwn yn cysylltu â chwi eto ynglŷn â'r dyddiad a'r lleoliad. Gallwch weld dogfennau'r apêl yn y swyddfa hon.

Bydd unrhyw sylwadau a wnaed ar y cais am ganiatâd cynllunio yn cael eu hanfon i Lywodraeth Cynulliad Cymru gyda chopi i'r apelydd a rhoddir ystyriaeth i'r cyfryw sylwadau gan y Cynulliad wrth benderfynu ar yr apêl. Os ydych eisiau tynnu'n ôl, newid, neu ymhelaethu ar eich sylwadau blaenorol mewn unrhyw ffordd, dylech ysgrifennu drwy gyflwyno 3 chopi at Yr Arolygwyr Cynllunio, Adeilad y Goron, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ o fewn 6 wythnos o'r dyddiad dechrau fel y cyfeirir ato uchod gan roi'r cyfeirnod uchod. Bydd copiau o unrhyw gynrychiolaeth y byddwch yn ei roi yn cael ei anfon ymlaen i'r apelydd a'r Llywodraeth Leol a bydd unrhyw gynrychiolaeth yn cael ei gysidro gan y Cynulliad pan yn penderfynu ar yr apêl oni bai y byddwch yn eu tynnu'n ôl o fewn 6 wythnos o'r dyddiad dechrau.

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi cynhyrchu templed ar gyfer cyflwyno cynrychioladau ble mae partïon â diddordeb yn cwblhau eu manylion personol ar wahan i'w cynrychioladau. Pan dderbynir manylion personol gan yr Arolygiaeth maent yn cael eu cadw ar wahan o'r wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd ac maent yn cael gwared ohonynt yn unol â thelerau'r Ddeddf Diogelu Data. Mae copi o'r templed ynghlwm wrth y llythyr hwn. Fel arall, mae'r Arolygiaeth yn hyrwyddo defnydd o'u cyfleusterau ar-lein i gyflwyno cynrychioladau yn www.planningportal.gov.uk/planning/appeals/online/comment

Gwefan / *Web site*: www.gwynedd.gov.uk
E-bost: Cynllunio@gwynedd.gov.uk
*E-mail*: Planning@gwynedd.gov.uk
Ffôn / *phone*: 01766 771 000



Swyddfa'r Cyngor
Gwasanaeth Cynllunio
Ffordd y Cob
Pwllheli
Gwynedd
LL53 5AA

Mae copi o lyfryn 'Guide to taking part in planning appeals' ar gael am ddim o'r swyddfa hon neu drwy 'cyhoeddiadau' ar safle we'r Arolygiaeth Gynllunio www.planning-inspectorate.gov.uk

Os ydych am dderbyn copi o'r llythyr penderfyniad, dylech ysgrifennu at Yr Arolygiaeth Cynllunio, Adeiladau y Goron, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ gan roi'r cyfeirnod uchod.

: : : : : : : : : : : : : : : : : : : :

*Dear Sir/Madam,*

***TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990 - Section 78(i) Appeal***

*I am writing to let you know that an appeal has been made to the Welsh Assembly Government in respect of the above site. The appeal is to be decided on the basis of an: Ysgrifenedig / Written, and if an informal or public inquiry, I will contact you again regarding the date and venue. The appeal documents can be viewed at this office.*

*Any comments already made following the original application for planning permission will be forwarded to the Welsh Assembly Government and a copy to the appellant and will be taken into account by the Assembly in deciding the appeal. Should you wish to withdraw, modify, or elaborate upon your earlier comments in any way, you should write submitting 3 copies direct to The Planning Inspectorate, Crown Building, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ within 6 weeks of the start date as indicated above quoting the above reference number. Copies of any representations that you do make will be sent to the appellant and the Local Authority and any such representations will be considered by the Assembly when determining the appeal unless you withdraw them within 6 weeks of the start date.*

*The Planning Inspectorate has produced a template for submission of representations where interested parties complete their personal details separately to their respresentations. The personal details are then held separately from the publicly available information when they are received by the Inspectorate and disposed of in accordance with the terms of the Data Protection Act. A copy of the template is attached to this letter. Alternatively the Planning Inspectorate encourage use of their on-line comment faclilities to submit representations at www.planningportal.gov.uk/planning/appeals/online/comment*

*A copy of the booklet 'Guide to taking part in planning appeals' is available free of charge from this office* or *through 'publications' on the Planning Inspectorate website www.planning-inspectorate.gov.uk*

*Should you wish to request a copy of the appeal decision letter, you should write direct to the Planning Inspectorate, Crown Buildings, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ quoting the above reference number.*

Yr eiddoch yn gywir/*Yours faithfully*

RHEOLWR RHEOLAETH DATBLYGU / *DEVELOPMENT MANAGEMENT MANAGER*

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | 24 Mehefin 2015 |
| **TEITL** | Aelodau Lleol ar y Cydbwyllgor Ymgynghorol |
| **PWRPAS** | Cyflwyno'r cefndir |
| **AWDUR** | Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn |
| **ARGYMHELLIAD** | Cadw at y drefn bresennol o ran aelodaeth y Cydbwyllgor |

**1.0 CYFLWYNIAD**

1.1 Mae'r Adroddiad hon wedi ei chynnwys ar raglen y Cydbwyllgor ar gais un o'r Aelodau Lleol. Pwrpas yr adroddiad yw ystyried y posibilrwydd o newid cyfansoddiad y Cydbwyllgor Ymgynghorol mewn perthynas â'r nifer o Aelodau Lleol (Cynghorwyr) ar y Cydbwyllgor.

**2.0 Y SEFYLLFA BRESENNOL**

2.1 Ar hyn o bryd mae 5 Aelod Lleol yn eistedd ar y Cydbwyllgor, yn unol â'r Cyfansoddiad. Yr Aelodau presennol yw rhai dros ardaloedd Aberdaron, Abersoch, Clynnog, Llanbedrog a Nefyn.

2.2 Mae'r Cyfansoddiad yn nodi fod Aelodau yn cael eu cyfnewid yn dilyn etholiadau lleol. Mae hyn yn golygu fod yr Aelodau eraill sydd mewn wardiau perthnasol i'r AHNE yn dod ar y Cydbwyllgor yn dilyn etholiadau lleol (felly cylchdroi aelodau).

2.3 Mae'r drefn bresennol yn golygu na fydd unrhyw Aelod lleol yn rhan o'r Cydbwyllgor AHNE am fwy na 4-5 mlynedd (yn ddibynnol ar amseru etholiadau lleol). Credir fod y trefniant yma yn gweithio yn dda gan ei fod yn caniatáu i aelodau sydd yn cynrychioli wardiau eraill o'r AHNE gael cyfle i fod yn aelodau a chyflwyno safbwyntiau newydd ar y Cydbwyllgor.

2.4 Pe byddai'r aelodau yn penderfynu newid y drefn o ran aelodau byddai raid gwneud trefniadau i newid Cyfansoddiad y Cydbwyllgor. Efallai byddai modd gwneud hynny trwy drefn ddirprwyedig gan yr Aelod Cabinet – neu roi y mater gerbron y Cyngor llawn. Byddai angen cyngor cyfreithiol ar y mater.

**3.0 CASGLIAD**

3.1 Credir fod y drefn bresennol o gael 5 Aelod Lleol ar y Cydbwyllgor ar un adeg yn gweithio yn dderbyniol, gyda Aelodau eraill yn dod yn aelodau yn dilyn etholiadau lleol.

**4.0 ARGYMHELLIAD**

**4.1 Cadw at y drefn bresennol a pheidio â cychwyn proses i ddiwygio'r Cyfansoddiad o ran Aelodau Lleol ar y Cydbwyllgor.**